Cofion a Chyfarchion

Parhawn i gofio am bawb sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ddiweddar a chyflwynwn hwy yn dyner i ofal yr Arglwydd. Gweddïwn y byddant yn profi Duw yn ddigon y dyddiau hyn.

Yn ein gweddïau hefyd mae Rhiannon Davies (Llansannan) sydd wedi bod yn derbyn gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ac yn yr Inffirmari dros yr wythnosau diwethaf, ac sydd yn ôl yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd. Mae Margaret Davies (Llansannan) hefyd yn parhau i gael gofal yn Ysbyty Rhuthun. Cyflwynwn y ddwy, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn gwarchod drostyn nhw a'u teuluoedd yn eu hangen.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Elfed Williams (Cefn Meiriadog) fydd yn dathlu penblwydd arbennig yn ystod yr wythnos, ac i Ifor Roberts (Henllan) fydd hefyd yn dathlu penblwydd arbennig ychydig ddyddiau wedyn! Diolchwn i Dduw amdanynt, a dymunwn nerth ac iechyd iddyn nhw am flynyddoedd lawer eto i ddod.

Llongyfarchiadau hefyd i Lois Gwen Jones (Llannefydd) a Tom ar enedigaeth Lena Haf, chwaer fach i Jacob. Gweddïwn dros y teulu bach, a diolchwn i Dduw am ei ddaioni yn eu hanes.

Cyrsiau Coleg y Bala

Dyma'r cyrsiau sydd wedi eu trefnu yng Ngholeg y Bala dros y misoedd nesaf:

⇒ **Cwrs Ieuenctid** (Gorffennaf 29ain – Awst 2il): Gwersyll haf i blant 11-15 oed yn llawn gemau, crefftau, chwaraeon, gweithgareddau ar y llyn, s'mores o amgylch y tân, trip a llawer mwy. Byddwn hefyd yn edrych ar y ffydd Gristnogol a sut mae'n berthnasol i ni heddiw. Y gost yw £130 ac mae'n cynnwys y llety, bwyd a'r holl weithgareddau.

⇒ **Anhrefn Awst** (Awst 12fed–15fed): Gwersyll haf i blant 8-11 oed. Bydd gemau gwirion, canu, storïau o'r Beibl, crefft, chwaraeon, gweithgareddau ar y llyn, s'mores o amgylch y tân, trip a llawer mwy. Y gost yw £100 ac mae'n cynnwys y llety, bwyd a'r holl weithgareddau.

⇒ **Souled Out** (Awst 17eg –22ain): Gwersyll haf i ieuenctid 15+, myfyrwyr ac oedolion ifanc. Mae'r pris o £134 yn cynnwys y digwyddiad, bwyd, gweithgareddau a 5 noson o lety.

Medrwch archebu lle ar y wefan: www.colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg ond os nad yw'n bosibl i chi archebu arlein neu os oes gennych unrhyw gwestiwn, plîs cysylltwch â colegybala@ebcpcw.cymru / 01678 520565 iddyn nhw bostio copi o'r ffurflen gofrestru atoch chi. (Cofiwch mai hanner y pris fydd y gost i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu, a bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynychu ac sy'n byw o fewn dalgylch yr Ofalaeth hon.)

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 30 Mehefin 2024

eglwysibroaled.com rhaglendorcas.com llanw.org

Ethol y gwaethaf

Cwta chwe wythnos sydd ers i Rishi Sunak gyhoeddi dyddiad yr Etholiad Cyffredinol. Ers hynny, daeth yn amlwg fod ymhlith yr ymgeiswyr seneddol a'u cydweithwyr rai annoeth, rai anonest, rai anwybodus, rai anaeddfed, a mwy nag un andros o wirion. Ond y mae yn eu plith hefyd, o fwy nag un blaid, bobl dda ac egwyddorol sy'n chwennych y gwaith o ddymuniad cywir ac anhunanol. Yn wahanol i'r hyn a ddywed llawer, dydyn nhw i gyd ddim yr un peth! Mae yna ymgeiswyr sydd i'w parchu am eu gwaith blaenorol a'u gwasanaeth i'w cymunedau a didwylledd eu haddewidion. A dydd Iau nesaf, bydd gofyn i bobl ystyried pa rai ohonyn nhw, a pha bleidiau, sy'n haeddu eu cefnogaeth. Siawns bod holl drafod yr wythnosau diwethaf wedi bod o help i ni wneud hynny'n ddoeth a synhwyrol. Erbyn bore Gwener, bydd cannoedd o Aelodau Seneddol wedi eu hethol; a does ond gobeithio y bydd yn eu plith fwy o rai teilwng nag annheilwng.

Pobl wedi eu hethol, neu wedi eu dewis yw Cristnogion hefyd. Pobl ydyn nhw na fyddai fyth wedi dod at Dduw nac wedi credu yng Nghrist pe na fydden nhw wedi eu dewis ganddo. Fel dywed Iesu: 'Ni all neb ddod ataf fi heb i'r Tad a'm hanfonodd i ei dynnu' (Ioan 6:43). Dyma'n sicr un o ddirgelion y Beibl a'r Ffydd Gristnogol. Yn amlwg, mae yn yr Efengyl alwad i ni droi at Dduw mewn ffydd ac edifeirwch. Mae arnom gyfrifoldeb i wneud hynny, ac yn hynny o beth mae'n ymddangos mai ein penderfyniad ni yw credu a dilyn Crist. Ac eto, mae'r Beibl yn mynnu na fyddai'r un ohonom wedi credu pe na fyddai Duw wedi ein dewis a'n galw a'n galluogi i wneud hynny.

A hyd yn oed fwy o ryfeddod yw'r ffaith fod pobl Dduw wedi eu dewis er nad oes yna deilyngdod o gwbl ynddyn nhw eu hunain. Nid ar sail ein daioni na'n hufudd-dod, ac nid oherwydd ein gweithredoedd na'n cymwynasau y gwnaed hyn. Yng ngeiriau Paul: 'Ond pethau ffôl y byd a ddewisodd Duw er mwyn cywilyddio'r doeth, a phethau gwan y byd a ddewisodd Duw i gywilyddio'r pethau cedyrn, a phethau distadl y byd, a phethau dirmygedig, a ddewisodd Duw, y pethau nid ydynt, i ddiddymu'r pethau sydd. Ac felly, ni all neb ymffrostio gerbron Duw' (1 Corinthiaid 1:27–29).

Ond er i Dduw yn ei drugaredd alw'r gwaethaf, gweddïwn mai'r gorau a etholir ddydd Iau.

Y Parch. John Pritchard

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Mehefin 30ain

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Rhodri Glyn. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac **yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Robinson. Bydd Ysgol Sul y plant yn Henllan am 10:00 ac Ysgol Sul yr oedolion yn Groes am 10:15.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y pnawn (a phob pnawn Sul arall).
- **Oedfa'r Fro yng Nghapel Llannefydd** am 6:00 yr hwyr gydag Alun Jones yn arwain a'r Parch. Rhodri Glyn yn pregethu.

Dydd Llun, Gorffennaf 1af

- **Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM:** 'Grym Gweddi' o dan arweiniad gweithwyr Dorcas am 7:00 yr hwyr. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. Cysylltwch â'r swyddfa i gael y ddolen i gysylltu (01678 520565 / eirian.roberts@ebcpcw.cymru).

Dydd Mawrth, Gorffennaf 2il

- **Paned a Sgwrs Llansannan:** Cyfarfod ym maes parcio'r capel am 1:00 y pnawn er mwyn mynd i ymweld ag Amgueddfa Cae Dai, Dinbych. Enwau erbyn dydd Sul, Mehefin 30ain, os gwelwch yn dda.
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Festri Capel Henllan am 7:30 yr hwyr.

Dydd Gwener, Gorffennaf 5ed

- **Paned a Sgwrs yng Nghapel Llannefydd** am 10:00. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Gorffennaf 7fed

- **Bore Bro Aled** – Oedfa i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan am 10:30 o dan arweiniad Huw Ll. Evans ac Eryl Davies.

Yn dilyn yr oedfa, bydd cyfle i fynd am bicnic ac i gymdeithasu.
(Os na fydd y tywydd yn ffafriol, gallwn fwynhau ein picnic yn y Festri.)

Dydd Llun, Gorffennaf 8fed

- **Clwb Plant Pant Pastynog** o 3:00-4:00 y pnawn o dan ofal tîm Bro Dinbych.

Dydd Mawrth, Gorffennaf 9fed

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.

Dydd Iau, Gorffennaf 11eg

- **Cyngerdd arbennig gyda Chôr Synod Mizoram** yn y Capel Mawr, Dinbych am 7:00 yr hwyr. Fe wneir casgliad tuag at y costau. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 13eg

- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan. Bydd eisteddiad o'r Henaduriaeth ac ymddiddan â'r blaenoriaid newydd **am 3:00 y prynhawn**, ac yna bydd croeso i bawb i'r oedfa gyhoeddus **am 6:00 yr hwyr** pryd y bydd gweinidogion a blaenoriaid yn cael eu llongyfarch am hir wasanaeth, a'r blaenoriaid newydd, sef Eleri Lloyd Jones (Groes); Eleri Davies a Dwynwen Davies (Y Waen, Nantglyn); ac Elinor Owen (Eglwys Unedig Llansannan) yn cael eu hordeinio, ac Alun Jones (Eglwys Unedig Llansannan) yn cael ei groesawu fel blaenor yn Henaduriaeth Dyffryn Clwyd gan ei fod eisoes wedi ei ordeinio yn flaenor yn Henaduriaeth Dyffryn Conwy. Diolchwn i Dduw amdanynt a dymunwn fendith Duw arnynt wrth iddynt ymroi i'r gwaith.

Dydd Sul, Gorffennaf 14eg

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yn Llanfair** am 11:00 o dan arweiniad Mr Gerallt Jones. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa Deulu yn Llannefydd** am 9:30 a hefyd **yn Henllan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Arawn Glyn.
- Bydd aelodau **Saron** yn mynd ar bererindod i Gapel Salem yn Llanbedr.
- NI FYDD Cyfarfod Gweddi yn cael ei gynnal yn **Nantglyn** heddiw.

Rhifyn Olaf y Tymor Hwn

Un rhifyn arall o Llais Bro Aled fydd yn cael ei gyhoeddi y tymor hwn, felly anfonwch fanylion unrhyw gyfarfodydd sydd i ddigwydd o hyn tan ddechrau Medi **erbyn nos Fercher, Gorffennaf 10fed**, os gwelwch yn dda.

Manylion Cyswllt

Mair Owen – mair@eglwysibroaled.com
☎ 01745 870632 07900 627536